OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 2618 (Cy.214)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*28 Medi 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Hydref 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 18(4) a 203(10) a chan baragraff 9(1), (2), (3), (5) a (9) o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2009 a daw i rym ar 1 Hydref 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "Canolfan Iechyd Cymru gynt" ("*the former Wales Centre for Health*") yw'r corff a elwid yn Ganolfan Iechyd Cymru neu the Wales Centre for Health a sefydlwyd gan adran 2 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003 ac a ddiddymwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Canolfan Iechyd Cymru;

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Hydref 2009;

ystyr "Gorchymyn Trosglwyddo Canolfan Iechyd Cymru" ("*the Wales Centre for Health Transfer Order*") yw Gorchymyn Canolfan Iechyd Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2009(**2**);

ystyr "yr Ymddiriedolaeth" ("*the Trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009(**3**).

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2009/2623 (Cy.215).
(**3**) O.S. 2009/ 2058 (Cy.177).